




Coronafeirws a Phobl ag Anableddau Dysgu: Astudiaeth o fywydau pobl ag anableddau dysgu drwy gyfnod y pandemig coronafeirws

Taflen Wybodaeth

Am beth mae'r daflen wybodaeth yn sôn?



Ymchwilyr mewn prifysgol ydyn ni. Mae ymchwilyr yn holi pobl i gael gwybodaeth newydd.



Mae'r pandemig coronafeirws wedi golygu llawer o newidiadau i bawb.



Rydyn ni'n awyddus i holi pobl ag anableddau dysgu am y ffordd mae'r coronafeirws wedi effeithio ar eu bywydau.



Mae'r sefydliad 'Ymchwil ac Arloesi y DU' (UK Research and Innovation) wedi ein talu ni i gynnal yr ymchwil hwn.



Bydd y wybodaeth fan hyn yn eich helpu i benderfynu ydych chi am gymryd rhan yn yr ymchwil neu beidio.



Cymerwch eich amser i benderfynu os ydych chi am gymryd rhan. Gofynnwch unrhyw gwestiwn sydd gennych chi i'r ymchwilydd.

Pam fi?



Rydyn ni'n gofyn i chi am eich bod yn 16 oed neu'n fwy na hynny a bod gennych anhawster dysgu.

Beth fydd raid i mi ei wneud?



Fe fyddwn ni am ofyn cwestiynau i chi. Fe fyddwn ni am ofyn cwestiynau i chi eto yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Byddai hyn yn golygu eich holi dair gwaith i gyd.

Gall yr ymchwilyr siarad â chi mewn gwahanol ffyrdd. Gallai hynny fod yn un o'r rhain:



Y Ffôn



Messenger



Zoom



WhatsApp



FaceTime



Skype

Holwch ni os byddai'n well gennych chi rhyw ddull arall.



Cyn i ni gychwyn y sgwrs, fe fydd ein hymchwilydd yn gofyn eto i chi os ydych chi'n dymuno cymryd rhan.



Bydd yr ymchwilydd yn gofyn cwestiynau i chi ac yn llenwi holiadur gyda'r atebion fyddwch chi'n ei roi.



Fe fyddan nhw'n siarad â chi am tuag awr bob tro byddan yn cael sgwrs gyda chi. Bydd yr ymchwilydd yn gofyn os byddwch chi am gael egwyl.

Am beth fyddan nhw'n ein holi ni?



Bydd yr ymchwilydd yn eich holi am eich iechyd.



Bydd yr ymchwilydd yn eich holi sut ydych chi wedi bod yn teimlo.



Bydd yr ymchwilydd yn eich holi am eich gwaith, eich gwirfoddoli a'ch buddiannau.



Bydd yr ymchwilyr yn eich holi am y gwasanaethau a'r cymorth rydych chi'n ei dderbyn.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth ymchwil?



Mae'r hyn fyddwn i'n ei drafod yn gyfrinachol. Mae hynny'n golygu byddwn ni'n cadw'r cyfan yn breifat.

Fyddwn ni ddim yn defnyddio eich enw.



Fe fyddwn ni'n dweud wrth bobl mewn dulliau gwahanol am yr hyn rydyn ni wedi ei ganfod.

Fe fyddwn ni'n dweud wrth bobl am yr hyn rydyn ni wedi ei ganfod. Gall yr hyn ddwedwch chi wrthon ni gael ei gynnwys mewn adroddiadau, gall yr hyn ddwedwch chi wrthon ni fynd ar y rhyngrwyd ac efallai byddwn ni'n cyflwyno'n casgliadau i bobl sy'n gweithio â rhai ag anabledd dysgu.

Oes raid i mi gymryd rhan?



Chi sydd i benderfynu cymryd rhan neu beidio.



Gallwch ddweud **gwnaf/iawn** neu **na wnaif/dim diolch**.

Os na fyddwch am gymryd rhan, ni fydd hynny'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'ch hawliau, i'ch budd-daliadau nac i'ch cymorth.



Os byddwch yn newid eich meddwl ynglŷn â chymryd rhan, mae hynny'n iawn, gallwch ddod â'r cyfan i ben.

Os na fyddwch am i ni gadw eich atebion ddim mwy, mae hynny'n iawn, byddwn yn eu dileu.

Byddwn yn ysgrifennu adroddiadau rheolaidd ar yr atebion mae pobl yn ei roi i ni, felly os byddwn ni wedi ysgrifennu adroddiad, allwn ni ddim newid hynny.

Oes yna unrhyw risg os bydda i'n cymryd rhan?



Pan fydd prifysgolion yn cynnal prosiectau ymchwil, rhaid i ni ystyried a oes yna unrhyw risg wrth gymryd rhan.

Does yna ddim risg wrth gymryd rhan, ond efallai gallai siarad am y coronafeirws wneud i chi deimlo'n drist neu achosi gofid i chi.

Os na fyddwch yn hoffi ateb y cwestiynau, gallwn stopio.

Os byddwch yn teimlo'n anhapus ar ôl i ni orffen, neu eich bod angen help, yna cysylltwch â Llinell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru: 0808 8000 300 neu drwy e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk, **NEU** cysylltwch â:

- **Karen Warner**, Anabledd Dysgu Cymru, ffôn: **02920 681160**, e-bost: karen.warner@ldw.org.uk
- **Sarah Ansell**, Pobl yn Gyntaf Cymru, ffôn: **07399 059609**
- **Josh Law**, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, ffôn: **07976 223992**, e-bost: josh@allwalesforum.org.uk

Fe allan nhw ddweud wrthoch chi ble cewch chi'r help rydych chi ei angen.



Os bydd yr ymchwilydd yn gofidio am eich diogelwch chi neu ddiogelwch rhywun arall, yna bydd raid iddyn nhw ddweud wrth rywun. Fe fyddan nhw'n trafod hyn gyda chi.

Oes yna bethau da all ddigwydd os byddai'n cymryd rhan?



Rydyn ni'n gobeithio byddwch chi'n credu ei fod yn ddiddorol ac yn mwynhau siarad â ni.

Bydd yr ymchwilydd yn canfod pethau ac yn dweud wrth bobl eraill all wneud bywyd yn haws i rai ag anableddau dysgu.

Cadw eich gwybodaeth yn ddiogel



Byddwn yn cadw'r cyfan o'r wybodaeth fyddwch chi'n ei roi i ni yn ddiogel ar gyfrifiaduron yn y Prifysgolion.

Ar ddiwedd y daflen hon, mae yna ragor o wybodaeth am y ffordd rydych chi'n cadw atebion pawb yn ddiogel. Efallai byddwch chi am ofyn i rywun i gael golwg ar hyn gyda chi, i'ch helpu i benderfynu os ydych chi am gymryd rhan.

Pwy sydd wedi rhoi caniatâd i'r prosiect hwn gael ei gynnal?



Mae pwyllgor moeseg Prifysgol Metropolitan Manceinion wedi adolygu a chymeradwyo'r prosiect hwn.

Mae Ymchwil ac Arloesi y DU (UK Research and Innovation) hefyd yn gwybod am yr ymchwil hwn.

Pwy alla i eu holi am hyn?



Yng Nghymru, gallech holi'r ymchwilydd, Edward Oloidi, edward.oloidi@southwales.ac.uk neu ffonio 01443 483042



Os oes gennych unrhyw sylwadau neu bryderon am yr ymchwil, gallwch siarad â'r Athro Chris Hatton (C.Hatton@mmu.ac.uk) neu'r Athro Richard Hastings (R.Hastings@Warwick.ac.uk).

Y ddau yma sydd â gofal am yr ymchwil.



Os byddwch am gwyno am yr ymchwil, gallwch ddweud wrth Yr Athro Khatidja Chantler, drwy e-bost: K.Chantler@mmu.ac.uk, neu adael neges iddi ar y rhif hwn: 0161 247 1316



Os nad ydych chi'n hapus ar y modd rydyn ni wedi rheoli eich data personol, gallwch roi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data ar: legal@mmu.ac.uk neu ar y ffôn: 0161 247 3331.



Am gyngor a chymorth cyffredinol am y coronafeirws, gallech holi:

Yng Nghymru: Llinell Gymorth Anabledd Dysgu
Mencap: ffôn: **0808 808 1111**, e-
bost: helpline@mencap.org.uk.



Diogelu Data: Gwybodaeth

Pan gytunwch i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn, byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol lle mae modd eich adnabod oddi wrthyh chi.

Prifysgol Metropolitan Manceinion ('y Brifysgol') ydy'r Rheolwr Data mewn perthynas â'r ymchwil hwn ac unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel cyfranogwr i'r ymchwil.

Mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ac mae'n rheoli data personol yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol.

Rydym yn casglu data personol fel rhan o'r ymchwil hwn (megis enw, rhifau ffôn neu oedran). Fel awdurdod cyhoeddus sy'n gweithredu er budd y cyhoedd rydym yn dibynnu ar sail gyfreithlon 'tasg gyhoeddus'. Pan fyddwn yn casglu data categori arbennig (megis gwybodaeth feddygol neu ethnigrwydd) rydym yn dibynnu ar y dibenion ymchwil ac archifo ar sail cyfreithlon budd y cyhoedd.

Mae eich hawliau i gyrchu, newid neu symud eich gwybodaeth yn gyfyngedig, gan fod angen i ni reoli eich gwybodaeth mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir. Os tynnwch yn ôl o'r astudiaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch chi yr ydym eisoes wedi'i chael.

Ni fyddwn yn rhannu eich data personol a gesglir ar y ffurflen hon gydag unrhyw drydydd partïon.

Os rhennir eich data, bydd hyn o dan delerau Cytundeb Cydweithio Ymchwil sy'n diffinio'r defnydd, ac yn cytuno ar ddarpariaethau cyfrinachedd a diogelu gwybodaeth. Polisi'r Brifysgol ydy cyhoeddi data dienw oni bai eich bod wedi rhoi eich caniatâd ysgrifenedig penodol i gael eich adnabod yn yr ymchwil. **Ni fydd y Brifysgol byth yn gwerthu data personol i drydydd partïon.**

Dim ond cyhyd ag sydd raid i gyflawni dibenion yr ymchwil y bydd eich data'n cael ei gadw. Bydd data personol yn cael ei gadw gan ymchwilwyr o bob gwlad yn y DU ac ni fydd hyn yn cael ei rannu'n ehangach nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r ymchwil. Dyrennir rhif cyfranogi i bob cyfranogwr at ddibenion adnabod. Bydd data yn cael ei gadw gan bob ymchwilydd mewn ffolder mynediad cyfyngedig ar liniadur wedi'i amgryptio sy'n eiddo i'r Brifysgol neu o fewn meddalwedd Qualtrics. Bydd data Qualtrics yn cael ei lawrlwytho'n wythnosol a'i storio ar blatfform Storio Data Ymchwil (RDS) Prifysgol Metropolitan Manceinion. Pan fydd cydsyniad yn cael ei recordio ar sain, trosglwyddir y ffeiliau hyn i RDS. Bydd data dienw Qualtrics yn cael ei drosglwyddo i Brifysgol Warwick i ddadansoddi data. Bydd set ddata ddienw yn cael ei hadneuo mewn ystorfa mynediad agored wedi'i diogelu ar ddiwedd y prosiect i'w defnyddio mewn ymchwil a dysgu yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am y defnydd o'ch data personol a'ch hawliau diogelu data gweler y tudalennau hyn gan y Brifysgol: [University's Data Protection Pages](#).

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y data personol a gasglwyd oddi wrthyh chi, gellir cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost: legal@mmu.ac.uk neu drwy ffonio 0161 247 3331 neu drwy ysgrifennu at: Y Swyddog Diogelu Data, (Data Protection Officer, Legal Services, All Saints Building, Manchester Metropolitan University, Manceinion/Manchester, M15 6BH. Mae gennych hefyd hawl i gyflwyno cwyn mewn perthynas â phrosesu eich data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel yr awdurdod goruchwylio. Gweler: <https://ico.org.uk/global/contact-us/>